# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 5

CWRICWLWM: ADDYSG ÔL-ORFODOL MEWN YSGOLION A GYNHELIR

PROSPECTIVE

### 61 Gofyniad cwricwlwm: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

(1) Rhaid i bennaeth ysgol a gynhelir sicrhau y darperir addysgu a dysgu mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn yr ysgol ar gyfer disgyblion sy'n gofyn amdano.

(2) Mae'r pennaeth i'w drin fel pe bai'n cydymffurfio ag is-adran (1) os darperir yr addysgu a dysgu yn yr ysgol ar adeg neu adegau sy'n gyfleus i'r rhan fwyaf o'r disgyblion sydd wedi gofyn amdano.

(3) Rhaid i'r addysgu a dysgu a ddarperir o dan yr adran hon—

(a) adlewyrchu'r ffaith mai Cristnogol yn bennaf yw'r traddodiadau crefyddol yng Nghymru, gan ystyried dysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru, a

(b) adlewyrchu hefyd y ffaith y delir ystod o argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol yng Nghymru.

(4) Yn is-adran (3), mae'r cyfeiriad at "argyhoeddiadau athronyddol" yn gyfeiriadau at argyhoeddiadau athronyddol o fewn ystyr "philosophical convictions" yn Erthygl 2 o Brotocol Cyntaf y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

(5) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir arfer ei swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau y darperir addysgu a dysgu mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â'r adran hon.

(6) Yn yr adran hon—

***Statws*** *Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 61 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

ystyr "y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol" ("*the European Convention on Human Rights*") yw'r Confensiwn ar Amddiffyn Hawliau Dynol a Rhyddid Sylfaenol, a gytunwyd gan Gyngor Ewrop yn Rhufain ar 4 Tachwedd 1950, fel y mae'n cael effaith am y tro o ran y Deyrnas Unedig;

ystyr "y Protocol Cyntaf" ("*the First Protocol*"), mewn perthynas â'r Confensiwn hwnnw, yw protocol y Confensiwn a gytunwyd ym Mharis ar 20 Mawrth 1952.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 61 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**Statws**
Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 61 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– s. 61 coming into force by S.I. 2022/652 art. 9(c)